# RHODD GOFFA MRS FOSTER WATSON
# RHEOLAU

1. Bydd Rhodd Goffa Mrs Foster Watson ar gael i'w dyfarnu bob pum mlynedd.

2. Dyfernir y Rhodd gan y Senedd.

3. Dyfernir hi am lyfr a gyhoeddwyd yn ystod y pum mlynedd blaenorol gan aelod o staff Prifysgol Aberystwyth (a hwnnw neu honno'n aelod o'r staff adeg y cyhoeddi). Gwahoddir y sawl sy'n gymwys i gyflwyno llyfrau erbyn dyddiad penodol. Ni ystyrir cywaith ar gyfer y wobr.

4. Dyfernir y wobr ar ddwy sail:

    1. gwerth y llyfr fel cyfraniad i wybodaeth;

    2. ei ddiddordeb i'r darllenwr diwylliedig.

5. Bernir y cynigion gan banel o dri beirniad, a enwebir gan yr Is-Ganghellor; telir eu ffioedd o'r llog a gronnodd ar Gronfa'r Rhodd. Ni ddewisir rhai sy'n aelodau o'r staff ar y pryd i fod yn feirniaid.

6. Gellir rhannu'r wobr neu ei hatal.

Cymeradwywyd y rheolau gwreiddiol gan y Senedd ar 29 Mai 1923, a chan y Cyngor ar 27 Mehefin 1923. Cymeradwywyd y rheolau diwygiedig gan y Senedd ar 09 Mehefin 1999 ac ar 16 Mehefin 2004.